



Gwasanaeth Democrataidd
Democratic Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

SERVICES SCRUTINY COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

10.00 a.m. DYDD IAU, 15 TACHWEDD 2012

10.00 a.m. THURSDAY, 15 NOVEMBER 2012

Lleoliad / Location

Siambr Arfon

Swyddfa Ardal Arfon

Penrallt

CAERNARFON

Nodwch newid yn y lleoliad, o.g.y.dd. / Please note the change in venue

Pwynt Cyswllt / Contact Point

GLYNDA O'BRIEN

01341 424 301

✉: GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd: 09.11.12

PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU SERVICES SCRUTINY COMMITTEE

AELODAETH / MEMBERSHIP (18)

Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr / Councillors

Huw Edwards
Chris Hughes
Linda Ann Wyn Jones
Dyfrig Siencyn

Alan Jones Evans
Elin W. Jones
Liz Saville Roberts
Ann Williams

Hefin Williams

Annibynnol / Independent (5)

Y Cynghorwyr / Councillors

Eryl Jones-Williams
Dewi Owen

Beth Lawton
Eirwyn Williams

Elfed Williams

Llais Gwynedd (3)

Alwyn Gruffydd

Llywarch Bowen Jones

Peter Read

Llafur / Labour (1)

Y Cynghorydd / Councillor Sion Wyn Jones

Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council – Y Cynghorwyr / Councillors Selwyn Griffiths a / and Huw Edwards

AELODAU CYFETHOLEDIG / CO-OPTED MEMBERS:
Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig /
With a vote on education matters only

Y Parchedig / Reverend Robert Townsend
Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales

Mrs Rita Price
Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church

Mr Dylan Davies
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd /
Representative for Meirionnydd Parent Governors

Mr John Fraser Williams
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Arfon /
Representative for Arfon Parent Governors

Ms Rhian Roberts
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor /
Representative for Dwyfor Parent Governors

Noder – amcan yn unig yw'r amseroedd a nodir isod

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Medi 2012, fel rhai cywir.

(Copi'n amgaeedig – Papur Gwyn)

10.10 am
(10 mun)

5. AELODAU CYFETHLEDIG

I ystyried cais y Pennaeth Addysg i gyfethol cynrychiolwyr o'r Undebau Athrawon i wasanaethu ar y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau.

10.20 am
(10 mun)

6. STRATEGAETH ADDYSG

Aelod Cabinet; Y Cyng. Siân Gwenllian

I enwebu Aelodau i wasanaethu ar Weithgor i weithredu'r rhaglen waith ad-drefnu ysgolion y Sir.

10.30 am
(40 mun)

7. CANOLFANNAU HAMDDEN

Aelod Cabinet: Y Cyng. Paul Thomas

I ystyried gwybodaeth am yr adolygiad strategol.

11.10 am
(30 mun)

8. CYNLLUN COMISYNU ANABLEDD CORFFOROL

Aelod Cabinet: Y Cyng. R H Wyn Williams

I ystyried gwybodaeth am y cynllun uchod.

(Copi'n amgaeedig – Papur Pinc)

11.40 am
(30 mun)

9. ANABLEDD AC AWTISTIAETH
Aelod Cabinet: Y Cyng. R H Wyn Williams

I ystyried gwybodaeth am yr ymchwil ynglyn â darpariaeth ar gyfer pobl ifanc anabl ac yn arbennig awtistiaeth.

12.10 pm
(40 mun)

10. CYNLLUN COMISYNU POBL HYN
Aelod Cabinet: Y Cyng. R H Wyn Williams

I ystyried gwybodaeth ar y cynllun “Urddas mewn Gofal”.

12.50 pm -
1. 00 pm
(10 mun)

11. RHAGLEN WAITH FLYNYDDOL

Cyflwyno'r fersiwn ddiweddaraf o'r rhaglen waith.

(Copi'n amgaeedig – Papur Melyn)

Please note that the times noted below are estimates only

A G E N D A

1. APOLOGIES

To receive apologies for absence.

2. DECLARATION OF PERSONAL INTEREST

To receive any declaration of personal interest.

3. URGENT BUSINESS

To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

4. MINUTES

The Chairman shall propose that the minutes of the meeting of this Committee held on 13 September 2012, be signed as a true copy.

(Copy enclosed – White paper)

10.10 am
(10 min)

5. CO-OPTED MEMBERS

To consider the Head of Education's request to co-opt representatives of the Teachers' Union to serve on the Services Scrutiny Committee.

10.20 am
(10 min)

6. EDUCATION STRATEGY

Cabinet Member: *Cllr. Siân Gwenllian*

To elect members to serve on the Working Group to implement the schools' re-organisation plan.

10.30 am
(40 min)

7. LEISURE CENTRES

Cabinet Member: *Cllr Paul Thomas*

To consider information on the strategic review.

11.10 am
(30 mun)

8. PHYSICAL DISABILITY COMMISSIONING PLAN
Cabinet Member: Cllr. R H Wyn Williams

To receive a report by the Cabinet Member on the above.

(Copy enclosed – Pink Paper)

11.40 am
(30 mun)

9. DISABILITY AND AUTISM
Cabinet Member: Cllr. R H Wyn Williams

To receive information regarding the review in respect of the provision for disabled young people and in particular autism.

12.10 pm
(40 mun)

10. OLDER PEOPLE'S COMMISSIONING PLAN
Cabinet Member: Cllr. R H Wyn Williams

To receive information on the "Dignity in Care" plan.

12.50 pm -
1.00 pm
(10 mun)

11. ANNUAL WORK PROGRAMME

To submit the latest version of the work programme.

(Copy enclosed)

PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU 13.09.12

Yn Bresennol:

Y Cynghorydd Peter Read – Is-gadeirydd

Y Cynghorwyr: Huw Edwards, Alwyn Gruffydd, Elin Walker Jones, Linda Ann Wyn Jones, Llywarch Bowen Jones, Siôn Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dewi Owen, Liz Saville Roberts, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Wyn Williams, R. Hefin Williams.

**Aelodau Cyfetholedig
gyda phleidlais ar faterion
addysg yn unig:**

Parchedig Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru)

Aelod Cabinet:

Y Cynghorydd R H Wyn Williams (Gofal)

Swyddogion:

Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Alan Jones Evans, Dyfrig Siencyn, Mrs Rita Price (Yr Eglwys Gatholig), Mrs Rhian Roberts (Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor).

1. YSGOL Y GROESLON

Mynegodd Aelod ei bryder nad oedd swyddog o'r Adran Addysg yn bresennol i roi diweddariad i'r Pwyllgor Craffu ynglŷn â chyflwr Ysgol y Groeslon o ystyried adroddiadau sydd wedi ymddangos yn y wasg yn ddiweddar ynglŷn â phryderon rhieni.

Eglurwyd nad oedd eitem benodol ar y rhaglen ac y byddir yn cyfeirio pryder yr Aelod i'r Adran Addysg.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Elin Walker Jones fuddiant personol yn Eitem 5 – Newid mewn Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru 7 gan ei bod yn gyflogedig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2012 fel rhai cywir.

4. NEWID MEWN GOFAL IECHYD YNG NGOGLEDD CYMRU

(a) Eglurodd yr Is-gadeirydd yn deillio o'r cyflwyniad i holl Aelodau'r Cyngor a gyflwynwyd bore heddiw gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mai bwriad y pwyllgor hwn ydoedd ystyried ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ac yn benodol i'r cynigion a gyflwynwyd ynglŷn â'r newidiadau mewn gofal iechyd yng Ngogledd Cymru.

(b) Cyn symud ymlaen at y brif eitem, mynegodd Aelod ei anniddigrwydd a phryder ynglŷn â pholisi iaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Nodwyd mai dim ond un swyddog dwyieithog o'r holl swyddogion oedd yn bresennol yn y cyflwyniad a theimlwyd yn gryf y dylai arweinyddiaeth y Bwrdd Iechyd fod yn ddwyieithog. Apeliwyd ar aelodau i siarad yng Nghymraeg mewn unrhyw gyfarfod i'r dyfodol ac iddynt ddefnyddio'r cyfarpar cyfieithu.

(c) Crynhodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (DPL) y cynigion a oedd yn rhan o ymgynghoriad y Bwrdd Iechyd gan annog y Pwyllgor i lunio argymhellion i'w gynnwys fel barn y Cyngor i'r ymgynghoriad. Nodwyd bod y cynigion yn cyfeirio at bedwar pennawd:

- Gwasanaethau arbenigol sef gofal dwys i'r newydd-anedig a gwasanaethau fasgwlaidd
- Iechyd Meddwl Pobl Hŷn
- Gwasanaethau Cymuned
- Ysbytai yn y gymuned

O safbwynt y **gwasanaethau gofal dwys i'r newydd-anedig**, cynigir cadw unedau gofal arbennig a dibyniaeth uchel i fabanod yn y 3 Ysbyty presennol a darparu'r gwasanaethau gofal dwys yn Ysbyty Arrowe Park. Tra'n derbyn bod gwasanaeth ar gael yn Ysbyty Bodelwyddan nid oedd modd cynnig gofal 24 awr oherwydd diffyg adnoddau staff i roi gwasanaeth arbenigedd yno.

(ch) Mewn ymateb i'r cynnig uchod, roedd y Pwyllgor Craffu o'r farn y dylid gwneud cais i wahodd arbenigwr o'r Uned Gofal, Ysbyty Bodelwyddan, i'r Pwyllgor Craffu hwn er mwyn derbyn eglurdeb am effaith symud yr Uned Gofal cyn gwneud unrhyw argymhelliad i'r cynnig.

(d) Yng nghyswllt **llawdriniaeth fasgwlaidd** sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddarparu Ysbytai Gwynedd / Glan Clwyd a Wrecsam Maelor sydd yn llawdriniaeth gymhleth arbenigol iawn, cynigir symud y gwasanaeth i un canolfan ond nid oedd penderfyniad wedi ei lunio ar ganolfan benodol.

(dd) O safbwynt **gwasanaeth pobl hyn** ac yn bennaf dioddefwyr dementia, cynigir cryfhau timau cymunedol gan symud o wasanaeth ysbyty i roi mwy o gefnogaeth yn y gymuned. Byddai hyn yn greiddiol i adnabod achosion dioddefwyr dementia ynghynt fel bo modd cychwyn triniaeth mewn da bryd a thrwy hyn yn arafu'r dirywiad gydag amser. Esboniwyd beth fyddai effaith hyn ar lawr gwlad yng Ngwynedd sef peidio ail-agor Wardiau yn Ysbyty Bryn Beryl ac Uned Meirion, Dolgellau sydd eisoes wedi cau. Yn ogystal, cynigir lleihau'r gwelyau yn Cefni a'i symud i Ysbyty Gwynedd.

(e) Mewn ymateb i'r cynnig uchod, amlygwyd y pwyntiau isod gan Aelodau unigol:

(i) bod angen sicrhau darpariaeth gofal ysbaidd parhaus lleol yn Wardiau Ysbyty Bryn Beryl ac Uned Meirion gan fod pwysau enfawr ar deuluoedd sy'n gorfod teithio i ymweld â chleifion.

- (ii) nad oedd teuluoedd estynedig yn bodoli'r dyddiau hyn gan fod pobl ifanc wedi gorfod mynd i ffwrdd i chwilio am waith.
- (iii) nad oedd darpariaeth gofal ar gael ym Meirionnydd a mynegwyd pryder dybryd ynglyn â pha ddarpariaeth fyddai ar gael o ystyried hefyd bod y Cyngor yn cau cartrefi henoed ac yn gorfod gwneud toriadau ar ddarpariaeth gofal dydd.
- (iv) bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i drafod sefydlu tai gofal ychwanegol i ardal Blaenau Ffestiniog ond nad oedd hyn yn ymarferol bosibl oherwydd anaddasrwydd y tai i dderbyn cyfarpar arbenigol megis teclynnau codi, a.y.b. Nodwyd pryder ynglŷn â diffyg cyfathrebu ar ran y Bwrdd Iechyd yn hyn o beth.

(f) Yng nghyswllt **Gwasanaethau cymunedol**, cynigir ymestyn model, sydd wedi ei dreialu yn Ninbych, ar yr egwyddor o estyn gofal yn y gymuned gan roddi fwy o gefnogaeth i bobl fyw hyd ddiwedd eu hoes yn eu cartrefi. Byddai ymestyn y model hwn ar draws y Gogledd yn clymu fewn i drefniadau ardaloedd sef Meirion/Arfon/Dwyfor ac a fyddai'n cynnig timau ar draws asiantaethau i gyfarfod a chydlynu gofal yn enwedig i gleifion mwyaf dwys eu hanghenion yn yr ardaloedd hynny.

(ff) O ran trefniadau **Ysbytai yn y Gymuned**, cynigir model o ddarparu 3 canolbwynt ysbyty sef Ysbyty Gwynedd, Allt Wen a Dolgellau gyda'r bwriad o resymoli ar leoliadau a sicrwydd o fwy o wasanaethau yn y tri chanolfan megis:

- Symud darpariaeth pelydr-x o Bryn Beryl, Tywyn a Blaenau i'r canolfannau uchod a'i fod ar gael o 9.00 am - 5.00 pm (5 diwrnod o'r wythnos)
- o safbwynt gwasanaeth mân-anafiadau cynigir oriau mwy sefydlog yn y canolfannau o 8.00 am - 8.00 pm (7 diwrnod o'r wythnos) gan gwtogi'r oriau yn Ysbyty Tywyn ac Ysbyty Bryn Beryl. Bwriedir cau uned mân-anafiadau yn Ysbyty Blaenau Ffestiniog a'r rhesymeg dros hyn ydoedd cynnig gwasanaeth cyson a mwy dibynadwy o'i gymharu â'r trefniadau presennol sydd yn cynnig gwasanaeth achlysurol

Yng nghyswllt Ysbyty Blaenau Ffestiniog, cynigir symud gwelyau i Ysbyty Allt Wen neu ddarparu mwy o ofal yn y cartrefi.

(g) Nodwyd bod gwrthwynebiad eang iawn ymysg Aelodau a fynychodd y cyflwyniad yn gynharach heddiw i'r cynigion uchod yn enwedig y gwasanaeth ar gyfer cleifion gyda dementia a chau Uned Mân-anafiadau yn Ysbyty Blaenau Ffestiniog. Pwysleisiwyd bod Blaenau Ffestiniog yn dref ddifreintiedig a mynegwyd pryder am anghyfartaledd iechyd drwy golli gwasanaeth o'r ysbyty o gofio, pe cyfyd argyfwng, bod yr Ysbyty yn gwasanaethu'r ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd gyda'r ysbyty agosaf nesaf oddeutu 14 milltir i ffwrdd.

(ng) Ychwanegwyd y pwyntiau isod gan Aelodau unigol fel sail i gefnogi'r gwrthwynebiadau:

- (i) bod yr Uned Mân-anafiadau yn cau yn Ysbyty Blaenau Ffestiniog oherwydd nad oedd nyrsys yn cael digon o ymarfer ond eto deallir mai'r un nyrsys sydd yn ymdrin â'r gwaith yn Ysbyty Allt Wen.
- (ii) Mai siomedig iawn oedd ymatebion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r cwestiynau a roddwyd ger eu bron.
- (iii) Tra'n derbyn bod ymestyn gofal yn y gymuned yn gweithio'n llwyddiannus mewn ardal drefol, ond o safbwynt Gwynedd nid oedd y Bwrdd Iechyd wedi cymryd i ystyriaeth trafndiaeth a chyflwr y ffyrdd mewn rhai ardaloedd gwledig o Wynedd,

- amserlenni tynn i'w cwblhau gan y nyrsys cymunedol, problemau parcio wrth ymyl tai'r cleifion, prysurdeb yn ystod tymor ymwelwyr i'r ardal.
- (iv) Problemau cludiant cyhoeddus / teithio i gleifion / teuluoedd / gofalmwyr mewn ardal wledig yn enwedig o Flaenau Ffestiniog i Ysbyty Allt Wen a / neu Ysbyty Gwynedd
 - (v) Pa mor hir y byddir yn gorfod disgwyl am wasanaethau brys a pha mor bell y bydd rhaid i'r ambiwlansys deithio pe cyfyd argyfwng yn yr ardaloedd gwledig yn Ne Gwynedd?
 - (vi) Pryder ynglyn â gwasanaeth tu allan i oriau yn Nolgellau. Deallir bod Gogledd Powys wedi bod yn ariannu'r gwasanaeth yn y swm o £200,000 ac y byddai hyn yn lleihad i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac ni dderbyniwyd ymateb cadarnhaol ynglyn â hyn.
 - (vii) Pryder ynglyn â gwasanaethau eraill megis clinigau eraill yn symud yn sgil symud gwasanaeth pelydr-X a chwestiynwyd a fyddai'n raddol bach yn tanseilio hyfywdra Ysbytai cymunedol o ganlyniad i hyn
 - (viii) goblygiadau ariannol i'r Cyngor ac yn benodol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi'r bobl fyddai'n derbyn gofal cartref
 - (ix) Nodir yn y ddogfen ymgynghori y bwriedir buddsoddi oddeutu £4m i ail ddatblygu cyfleusterau presennol ym Mlaenau Ffestiniog, yn amodol ar ddatblygu achos busnes. Cwestiynwyd ynglyn â sicrwydd o'r buddsoddiad ond ni dderbyniwyd ymateb cadarnhaol gan y Bwrdd Iechyd hyd nes y byddent yn ymwybodol o ganlyniad yr ymgynghoriad.
 - (x) Y byddai'r gost o ddarparu gwasanaeth gofal yn gost aruthrol o'i gymharu â'r gost i gadw Ysbyty Blaenau Ffestiniog yn agored. Pe byddir yn ei chau golygai hyn golled o un meddyg ynghyd â meddygfeydd yn Llan Ffestiniog ac efallai Dolwyddelan.

Penderfynwyd: Gofyn i'r Aelod Cabinet (Gofal) gyfleu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

- (i) wrthwynebiad llwyr y Pwyllgor Craffu hwn i gau Ysbyty Blaenau Ffestiniog gan ei fod yn gwbl afresymol i wneud hynny oherwydd maint poblogaeth y dref o oddeutu 5,000.
- (ii) ddymuniad y Pwyllgor Craffu hwn i wahodd arbenigwr o'r Uned Gofal, Ysbyty Bodelwyddan, i gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu er mwyn derbyn eglurdeb am effaith symud yr Uned Gofal cyn gwneud unrhyw argymhelliad terfynol i gynigion y Bwrdd Iechyd.
- (iii) ddymuniad i wahodd Meddyg Teulu i gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu i amlinellu effaith y cynigion o fewn y ddogfen ymgynghori ar lawr gwlad.

5. STRATEGAETH ADDYSG

Cyflwynwyd: Adroddiad gan y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu yn amlinellu'r opsiynau i Aelodau ynglŷn â sefydlu Gweithgor i gynorthwyo'r Aelod Cabinet i weithredu rhaglen waith ad-drefnu ysgolion y Sir.

(a) Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd at y dewisiadau gan nodi bod rhaglen waith ad-drefnu ysgolion drafft eisoes wedi ei gychwyn ac wedi ei drafod yn y Cabinet anffurfiol ac nad oedd yr opsiwn i sefydlu Gweithgor i gynorthwyo'r Aelod Cabinet yn berthnasol bellach. Felly, argymhellir i'r Pwyllgor Craffu dderbyn adroddiadau cynnydd yn amserol yn unol â'r Rhaglen Waith y Cabinet.

(b) Nododd Aelod bod hyn yn gwbl annerbyniol ar ran y Cabinet o ystyried eu bod yn ymwybodol o ddymuniad y Pwyllgor Craffu hwn i leisio barn ac i gynrychioli buddiannau eu

hetholwyr. Awgrymwyd y dylid gwrthwynebu hyn yn llwyr ac anfon neges glir i'r Aelod Cabinet (Addysg) mai dymuniad y Pwyllgor Craffu hwn yw bod yn rhan o'r broses i weithredu'r rhaglen waith ad-drefnu ysgolion y sir ac nid bod yn rhan o broses monitro yn fympwyl.

- (c) Ategodd Aelod arall yr uchod gan ychwanegu bod angen edrych ar y drefn craffu'n gyffredinol o beth yw'r cyfraniad gorau all Aelodau meinciau cefn gynnig ac na ddylai Aelodau fod yn ymosodol yn erbyn ei gilydd. Pryderai hefyd bod gorchwyl gwaith y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn rhy eang i un Pwyllgor o ystyried bod addysg ac iechyd yn faterion o bwys i drigolion Gwynedd.
- (ch) Byddai sefydlu Gweithgorau yn syniad da a fyddai'n arwain at arbenigedd ond cwestiynwyd cyfle i'r Aelodau hynny nad ydynt yn rhan o'r Gweithgor fedru rhoi mewnbwn i'r trafodaethau.
- (d) Mewn ymateb i'r uchod, esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y cyflwynir adroddiadau'r Gweithgorau i'r Pwyllgor Craffu cyn penderfynu ar argymhellion i'w cyflwyno i'r Aelod Cabinet.

Penderfynwyd: Gwrthod yr argymhelliad fel amlinellwyd yn yr adroddiad gerbron a gofyn i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd gyfleu i'r Aelod Cabinet ddymuniad y Pwyllgor Craffu hwn i fod yn rhan o'r broses i weithredu'r rhaglen waith ad-drefnu ysgolion y sir ac nid bod yn rhan o broses monitro yn fympwyl.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 3.10 p.m.

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid
Social care for adults is changing

Cynllun Comisiynu Anabledd Corfforol Physical Disability Commissioning Plan 2012-16



gwysgwch yw yn annibynnol a diogel • Supporting people to live independent and safe
☎ 01286 679549 • ✉ gccg@gwynedd.gov.uk • 🌐 www.gwynedd.gov.uk



Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Trefn y dydd: *Order of the day:*

- Y Cynllun Comisiynu Anabledd Corfforol
- The Physical Disability Commissioning Plan*
- Gweledigaeth, Canlyniadau, Egwyddorion
- Vision, Results, Principles*
- Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni heddiw?
- What do we want to achieve today?*
- Cyflwyno data ac adborth yr holiaduron ymgysylltu
- Present data and feedback from engagement questionnaires*

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Trefn y dydd: *Order of the day:*

- Cyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd (neu gael paned!)
- Opportunity to take part in an activity (or tea/coffee break!)*
- Eich barn chi – trafodaeth grŵp
- Your opinion – group discussion*
- Teitl y cynllun
- The plan's title*
- Y camau nesaf
- The next steps*
- Cloi
- Close*

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Y Weledigaeth *The Vision*

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid.
Social care for adults is changing.

Gweledigaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yw hybu a chynnal annibyniaeth drwy gefnogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain cyn hired â phosib.

Gwynedd Council's vision for adult social services is to promote and support independence by enabling people to live at home for as long as possible.

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Prif Nod Gwasanaethau Cymdeithasol: ***Social Services' main aims***

- Cwrdd ag anghenion yr unigolyn
•*Meet the needs of the individual*
- Cyfrannu tuag at gynnal annibyniaeth
•*Contribute toward maintaining independence*
- Ddeniadol, addas a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol
•*Appealing, appropriate and sustainable for the future*
- Cynnig dewisiadau ac opsiynau i'r unigolyn
•*Offer choices and options to the individual*

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Prif Nod Gwasanaethau Cymdeithasol: *Social Services' main aims*

- Cynnig gwerth am arian / yn gost effeithiol
•*Offer value for money / are cost effective*
- Cwrdd â safonau disgwyledig
•*Meet the expected standards*
- Ddigon hyblyg i allu newid i gyfarch unrhyw newidiadau i amgylchiadau ag anghenion yr unigolyn
•*Are flexible enough to be able to change to meet any changes in circumstances and the individual's needs*

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Canlyniadau Outcomes

Bydd gwasanaethau yn cael eu comisiynu er mwyn sicrhau bod y canlyniadau canlynol yn cael eu cyflawni:
Services will be commissioned to ensure the following outcomes are achieved

- Gwell iechyd
• Health improvement
- Gwell ansawdd bywyd
• Improve quality of life
- Gwneud cyfraniad positif
• Make a positive contribution

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Canlyniadau *Outcomes*

- Ymarfer dewis a rheolaeth
•*Exercise choice and control*
- Rhyddid rhag gwahaniaethu ac aflonyddwch
•*Freedom from discrimination and harassment*
- Lles economaidd
•*Economic well-being*
- Urddas personol a pharch
•*Personal dignity and respect*

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Prif egwyddorion y Cynllun Comisiynu: *The Commissioning Plan's main principles:*

- Hybu annibyniaeth
•*Promote independence*
- Lleihau unigrwydd ac arwahaniad
•*Reduce loneliness and social isolation*
- Urddas mewn gofal ac ansawdd gwasanaethau
•*Concentrate on dignity in care and the quality of services*

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Prif egwyddorion y Cynllun Comisiynu: *The Commissioning Plan's main principles:*

- Gweithio mewn partneriaeth
•*Work in partnership*
- Cydnabod rôl gofalwyr a sicrhau cefnogaeth iddynt
•*Recognise the role of carers and ensure there's support for them*

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



- Llunio'r weledigaeth a'r egwyddorion sylfaenol wedi ymgysylltuo'n helaeth.
- Yr un yw'r weledigaeth a'r egwyddorion yn y Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn a'r Cynllun Comisiynu Anabledd Dysgu
- Ydi pawb yn hapus i ni gadw at yr un weledigaeth ar gyfer y Cynllun Comisiynu Amhariad Corfforol?

- *Vision and basic principles – formed after extensive consultation.*
- *The vision and principles are the same in the Older People and Learning Disability Commissioning Plans*
- *Is everyone happy to keep to the same vision for the Physical Disability Commissioning Plan?*

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni heddiw?
What do we want to achieve today?

Eisiau clywed eich barn CHI ar y gwasanaethau yr ydych chi'n eu derbyn

We want to hear YOUR opinion on the services you receive

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Gweithgaredd: *Activity:*

Trafod ar eich byrddau eich barn chi ar un math o wasanaeth
Discuss on your table, your opinion on one type of service

Ysgrifennu ar y darn papur sydd o'ch blaen, eich barn chi ar un gwasanaeth
mewn 1 brawddeg

Write on the piece of paper before you, your opinion on one service in one sentence

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid
Social care for adults is changing



Data Gofrestr Anabledd Corfforol ***Physical Disability Register Data***

- 491 o bobl (18-64) ar y Gofrestr Anabledd Corfforol
- 491 people (18-64) on the Physical Disability Register*

O'r rhain mae:
Of these:

- 457 o bobl (18-64) ag Anabledd Corfforol
- 457 people (18-64) with Physical Disability*
- mae gan 26 nam golwg
- 26 have a visual impairment*

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Data Gofrestr Anabledd Corfforol *Physical Disability Register Data*

- 34 o bobl (18-64) ac amhariad clyw
•34 people (18-64) with a hearing impairment
- Mae gan 27 nam golwg
•27 have a visual impairment
- Cyfanswm gyda nam golwg ydi 53
•The total with visual impairment is 53

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Rhagamcanion *Projections*

- Daffodil: erbyn 2030 rhagwelir y bydd lleihad yn y nifer o bobl 18-64 oed gyda anabledd corfforol, nam sylweddol ar y golwg, nam clyw cymedrol, difrifol neu ddwys neu yn dioddef o salwch hir dymor
- Daffodil: *by 2030 a decrease is anticipated in the number of people 18-64 with a physical disability, substantial visual impairment, moderate, profound, intense hearing impairment, or suffer from a long term illness*

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Rhagamcanion *Projections*

- Gwir am Gymru a Gwynedd
- True for both Wales and Gwynedd*
- Dilyn tueddiad yn y boblogaeth
- Follows the trend in population*

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Rhagamcanion *Projections*

Er hynnu, yng Ngwynedd, rhagwelir y bydd 17 o bobl ifanc yn trosglwyddo i wasanaethau oedolion dros gyfnod y cynllun comisiynu

Even so, in Gwynedd, it is anticipated that 17 young people will transfer to adults services over the course of the commissioning plan

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Data Defnyddwyr Gwasanaeth Gwynedd (2011-12): *Gwynedd Service User Data (2011-12):*

- 51% - Arfon
- 23% - Dwyfor
- 26% - Meirionnydd

- Ar y cyfan:
- On the whole:*

- 15% 18-34
- 40% 35-54
- 45% 55-65

OND – dros 50% 55-65 yn Dwyfor a Meirionnydd, 19% 18-34 yn Arfon
BUT – over 50% 55-65 in Dwyfor and Meirionnydd, 19% 18-34 in Arfon

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing

Data Gwasanaethau 2011-12: *Services Data 2011-12:*



- 7 o bobl wedi derbyn Galluogi gwasanaeth dwys er mwyn rhoi cymorth i bobl ail-ennill sgiliau a'u galluogi i fyw yn annibynnol (hyd at 6 wythnos)

- *7 people have received Enablement*

intensive service which enables people to re-gain skills and enable them to live independently (up to 6 weeks)

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Data Gwasanaethau 2011-12: *Services Data 2011-12:*

- 57 o bobl wedi derbyn Teleofal

offer i alw am help ar ôl cwmp neu ddigwyddiad, a sensors yn y cartref er mwyn monitro risgiau

- 35 o bobl yn derbyn pecyn Teleofal cymhleth

- 57 people have received Telecare

equipment to call for help after a fall or incident, and sensors in the home to monitor risks

- 35 people receive a complex Telecare package

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Data Gwasanaethau 2011-12: Services Data 2011-12:

- 152 o bobl wedi derbyn offer, 89 wedi cael addasiadau cefnogi pobl i fyw gartref, uchafu annibyniaeth pobl. Cynorthwyo unigolion gyda thasgau dydd i ddydd - allweddol wrth feithrin hyder a lles a pharhau i fyw yn y gymuned

- 152 people received equipment, 89 have had adaptations supports people to live at home, maximises people's independence. Assist individuals with daily tasks – key when building confidence, well-being and continuing to live in the community.



- ~3.5% ar offer ac addasiadau, cyfartalog 6.7%
- ~3.5% on equipment and adaptations, average 6.7%

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Data Gwasanaethau 2011-12: Services Data 2011-12:

- 49 yn mynychu rhyw fath o wasanaeth dydd
Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau
Dros hanner yn byw yn Arfon

- 49 attend day services of some kind
This includes a range of activities
Over half live in Arfon

0.22% ar wasanaeth dydd, cyfartaledd 9.5%
0.22% on day services, average 9.5%



Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Data Gwasanaethau 2011-12: *Services Data 2011-12:*

- 36 yn defnyddio Taliadau Uniongyrchol
Cynnig hyblygrwydd a rheolaeth dros ofal eu hunain

- 36 use *Direct Payments*
Offers flexibility and control over their own care

10% ar TU, mwyaf yw 39%
10% on DP, highest is 39%



Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Data Gwasanaethau 2011-12: Services Data 2011-12:

- 54 yn derbyn gofal cartref gan darparu mewnol ac 79 yn derbyn gwasanaeth gan gwmnïau preifat.

Rhoi cymorth i bobl gyda thasgau personol; gwisgo ac ymolchi

- 54 receive home care from internal providers and 79 receive service from private companies

Supports people with personal tasks; dressing and washing

- 1 yn derbyn gofal ysbaid
Gofal dros dro i gefnogi gofalydd
Cyfnod o ddiwrnod i bythefnos
- 1 receives respite care
Temporary care to support carers
Period of one day to two weeks



31% ar ofal cartref,
cyfartaledd 25%

31% on home care,
average 25%

Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel • Supporting people to live independent and safe

☎ 01286 679549 • ✉ gchg@gwynedd.gov.uk • 🌐 www.gwynedd.gov.uk



Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing

Data Gwasanaethau 2011-12: Services Data 2011-12:

6 o bobl yn byw mewn llety a chefnogaeth; i gyd dan 50
6 people live in supported housing; all under 50

- 13 o bobl ag anabledd corfforol yn derbyn gofal preswyl neu nyrsio
- 6 o'r rhain tu allan i'r Sir
- *13 people with physical disability receive residential or nursing care*
- *6 of these are outside the county*



2.7% ar llety gyda chefnogaeth – 8 cyngor arall
10% ar ofal preswyl a nyrsio
2.7% on the supported housing – 8 other councils
10% on residential and nursing care



Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel • Supporting people to live independent and safe

☎ 01286 679549 • ✉ gcdc@gwynedd.gov.uk • 🌐 www.gwynedd.gov.uk



Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Holiaduron Ymgysylltu: *Engagement Questionnaires:*

- Cwblhawyd 137 holiadur ymgysylltu
 - Ymateb gorau yn Meirionnydd
 - 47% o'r ymatebion gan unigolion rhwng 35-54
 - 14% o'r ymatebion gan unigolion rhwng 18-34
-
- 137 questionnaires were completed*
 - The best response was in Meirionnydd*
 - 47% of responses were by individuals between 35-53*
 - 14% of responses were by individuals between 18-34*

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Adborth: *Feedback:*

- 64% Taliadau Uniongyrchol yn ardderchog
 - 52% darpariaeth Gwasanaethau Dydd yn wael
 - 76% Gwybodaeth a Chyngor yn foddhaol neu yn wael
-
- 64% *Direct Payments are superb*
 - 52% *Day Service provision poor*
 - 76% *Information and Advice is satisfactory or poor*

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing




Adborth: *Feedback:*

- Canmoliaeth i Ofalwyr Cartref
- Cwynion am yr amser aros am offer ac addasiadau
- Pobl ag Anabledd Corfforol eisiau mwy o ddewis o ran gofal ysbaid
- *Praise to Home Carers*
- *Complaints about waiting time for equipment and adaptations*
- *People with Physical Disabilities want more choices in terms of respite care*



CHWARAEON ANABLEDD CYMRU DISABILITY SPORTS WALES



Marcus Politis

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

www.gwynedd.gov.uk



Disability Sport Wales
Chwaraeon Anabledd Cymru

Community
Cymuned



CHWARAEON ANABLEDD CYMRU DISABILITY SPORTS WALES

- Cefnogi gweithgareddau cysylltiedig ag iechyd
- *Support activities connected with health*
- Cynyddu nifer o fobl anabl sy'n aelod o glybiau chwaraeon
- *Increase the number of disabled people which are members of sports clubs*
- Cydlynu cyrsiau chwaraeon Cynhwysol
- *Co-ordinate inclusive sports courses*
- Sefydlu strwythyrau cystadlu lleol yn arawin at gweithgareddau rhanbarthol a chenedlaethol
- *Establish local competing structures which lead to regional and national activities*
- Grwp Oed: 0-100
- *Age Group: 0-100*



Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

www.gwynedd.gov.uk



Disability Sport Wales
Chwaraeon Anabledd Cymru

Community
Cymuned



CHWARAEON ANABLEDD CYMRU DISABILITY SPORTS WALES

- Grwpiau Amhariad: Anabledd Corfforol, Anabledd Dysgu, Nam Synhwyrdd
- *Impairment Groups: Physical Disability, Learning Disability, Sensory Impairments*
- Datblygu Clybiau Safonol
- *Develop Standard Clubs*
- Sicrhau fod y Cyngor yn gweithio mewn ffordd cynhwysol gyda'r cynllun iNSPORT. (70% o waith y Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd)
- *Ensure that the Council works in an inclusive way with the iNSPORT plan. (70% of the Disability Sports Development Officer)*

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

www.gwynedd.gov.uk



Disability Sport Wales
Chwaraeon Anabledd Cymru

Community
Cymuned





insport

insport

insport
Club / Clwb

insport
Club / Clwb

insport
Club / Clwb

insport
Club / Clwb

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

www.gwynedd.gov.uk



Disability Sport Wales
Chwaraeon Anabled Cymru

Community
Cymuned



Darlun Cyfleoedd Addas i pobl Anabl gyda Ymhariad Corfforol a Nam Golwg yng Ngwynedd

Illustration of Appropriate Opportunities for people with Physical Disabilities and Sensory Impairments in Gwynedd



Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

www.gwynedd.gov.uk



Disability Sport Wales
Chwaraeon Anabled Cymru

Community
Cymuned



CHWARAEON ANABLEDD CYMRU

DISABILITY SPORTS WALES

CYFRANOGAETH	2005 /06:	1805
Yng NGWYNEDD	2006 /07:	3,800
PARTICIPATION	2007 /08:	8,700 (240% Cynnydd / Increase)
In GWYNEDD	2008 /09:	11,000
	2009 /10:	22,000
	2010 /11:	25,000
	2011/12:	28,000

'QUOTE' WENDY WILLIAMS – TALSARNAU, GWYNEDD

“What I received today was priceless, to be able to hand over the responsibility to someone else, not worry that I would stumble and fall, there's no price you can put on the freedom to walk without fear”

Diolch / Thank You

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

www.gwynedd.gov.uk



Disability Sport Wales
Chwaraeon Anabledd Cymru

Community
Cymuned



Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid
Social care for adults is changing



Gweithgareddau

Activities

Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel • Supporting people to live independent and safe
☎ 01286 679549 • ✉ gccg@gwynedd.gov.uk • 🌐 www.gwynedd.gov.uk



Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Astudiaethau achos / Case Studies

Sian Davies, 45, Cerebral Palsy

- Wedi bod mewn gofal preswyl ers yn blentyn
- Has been in residential care since he was a child*
- Eisiau symud yn nol i'r gymuned, eisiau byw yn lleol
- Wants to move back into the community, wants to live locally*
- Dim rheolaeth dros ei fywyd
- No control over his life*
- Cyfyngedig – Methu mynd allan pan mae eisiau
- Limited – Can't go out when he wants*
- Eisiau cyfarfod pobl, cael perthynas a chymdeithasu'n bwysig iddo
- Wants to meet people, having a relationship and socialising important to him*
- Eisiau gweithio
- Wants to work*
- Angen gofal 24 awr – methu gwneud dim heb gefnogaeth
- Needs 24 hour care – can't do anything without support*

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Astudiaethau achos / Case Studies

Jac Lloyd, 18, MS

- Symptomau MS cynnar
- *Early symptoms of MS*
- Ddim yn gallu cerdded yn bell, dechrau dibynnu ar gadair olwyn
- *Can't walk far, starting to depend on wheelchair*
- Wedi bod i'r coleg, nawr eisiau ei lety ei hun
- *Has been to college, now wants his own accommodation*
- Eisiau bywyd cymdeithasol
- *Wants a social life*
- Mwynhau pel-droed
- *Enjoys football*
- Eisiau mynd allan yn annibynnol gyda ei ffrindiau
- *Wants to go out independently with his friends*

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Astudiaethau achos / Case Studies

Emma Griffiths, 55, Gofalydd / Carer

- Gŵr Emma wedi cael stroc, sydd yn effeithio ar ei symudedd
- Emma's husband has had a stroke which affects his mobility*
- Emma'n dymuno mynd yn nol l'w gwaith rhan amser
- Emma wishes to return to work part time*
- Does dim aelod arall o'r teulu fydda'n gallu gofalu am y gŵr
- There is no other member of the family that could care for the husband*
- Mae yna risiau yn y tŷ
- The house has stairs*

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing

Astudiaethau achos / Case Studies

Tony Jones, 42, Damwain Car / Car Accident

- Mae Tony wedi colli ei goes
- *Tony has lost his leg*
- Mae ganddo wraig a dau o blant o dan 10 oed
- *He has a wife and two children under 10 years old*
- Mae nhw'n byw mewn ty rhent mewn ardal wledig yn Meirionnydd
- *The live in a rented house in a rural area in Meirionnydd*
- Eisiau mwy o bwrpas mewn bywyd
- *Wants more purpose in life*
- Ddim isio gorfod dibynnu ar ei wraig
- *Doesn't want to depend on his wife*
- Mae'r wraig a'r plant angen cefnogaeth
- *The wife and children need support*
- Dioddef o iselder
- *Suffers from depression*



Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing

Astudiaethau achos / *Case Studies*

Dewisiwch UN achos i'w drafod mewn grŵp
Choose one case study to discuss in a group

Pa fath o wasanaethau gallem gynnig i'r unigolion yma?
What type of services could we offer these individuals?

Beth ddylai Gwynedd gynnig mwy neu lai ohono?
What should Gwynedd be offering more/less of?

Byddwn yn gofyn i chi adrodd yn ôl fesul grŵp mewn 40 mun
We will ask you to feedback as a group in 40 min



Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid
Social care for adults is changing



Teitl y cynllun

Cynllun Comisiynu Anabledd Corfforol

Mae'r cynllun yn amlinellu ein bwriadau comisiynu
gwasanaethau ar gyfer pobl gydag:
Anabledd Corfforol
Nam ar y synhwyrâu
Gwaeledd hir-dymor

The plan's title

Physical Disability Commissioning Plan

The plan outlines our intentions for commissioning services for people with:

Physical Disability
Sensory Impairment
Long term illness

Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel • Supporting people to live independent and safe
☎ 01286 679549 • ✉ gcdc@gwynedd.gov.uk • 🌐 www.gwynedd.gov.uk



Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid Social care for adults is changing



Y Cam Nesaf

Byddwn yn llunio bwriadau ar gyfer y Cynllun Comisiynu. Fe fydd y bwriadau yma wedi ei seilio ar farn nifer o fudd ddeiliaid ac ymarfer da.

The Next Step

We will form intentions for the Commissioning Plan. The intentions will be based on the opinion of a number of stakeholders and best practice.

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid
Social care for adults is changing



DIOLCH
THANK YOU

Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel • Supporting people to live independent and safe
☎ 01286 679549 • ✉ gcdc@gwynedd.gov.uk • 🌐 www.gwynedd.gov.uk



Straplein: **Mae Craffu Da'n helpu'r Cyngor i gyflawni er budd Pobl Gwynedd**

A Ymchwiliad Craffu

Lle mae'r Pwyllgor yn penodi aelodau i gynnal Ymchwiliad Craffu. Bydd yr aelodau hynny'n cynnal gwaith manwl ar lawr gwlad i asesu effaith gweithredu polisi'r Cyngor gan gyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Aelod Cabinet. Ni ellir cynnal mwy nag un Ymchwiliad o bob Pwyllgor ar unrhyw adeg.

B Monitro Cynnydd

Lle bo'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau gan y Gwasanaeth ar berfformiad y Cyngor yn cyflawni prosiectau neu wasanaeth gan fonitro'r cynnydd a wnaed. Bydd hyn yn digwydd mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu lle bydd yr aelodau craffu'n cwestiynu, herio a chanmol yr Aelod Cabinet perthnasol fel sy'n briodol. Yn dilyn y cyfarfod, bydd y Cadeirydd a'r Swyddogion Cefnogi Aelodau a Chraffu yn llunio argymhellion i sylw'r Aelod Cabinet

C Datblygu Cynlluniau

Mae'n bosibl y bydd Aelodau'r Cabinet yn gofyn am gymorth y Craffwyr i roi mewnbwn i waith sy'n cael ei ddatblygu ganddynt o dro i dro. Eithriadau bydd y rhain yn y drefn graffu newydd gan y bydd yn bosibl i Aelodau'r Cabinet drafod gyda chriw o aelodau i'w cynorthwyo y tu allan i'r drefn graffu.

	Testun	Pwrrpas	Dilyniant
1	Strategaeth Ad-drefnu Addysg Gynradd	Mae angen Adroddiad Cynnydd i asesu faint o gynnydd a wnaed ar y Strategaeth, beth yw'r llwyddiannau a sut y bwriedir delio gydag unrhyw anawsterau.	Eitem ar 31.07.2012
2	Trawsnewid Gwasanaethau i leuenctid	Mae angen Adroddiad Cynnydd i ddangos faint o lwyddiant a gafwyd yn sgil yr adolygiad ac i herio'r cynnydd. Diffyg darpariaeth i bobl ifanc?	Eitem ar 31.07.2012
3	Ansawdd Addysg	Ystyried cais gan yr Aelod Cabinet i gynnal Ymchwiliad Craffu ar y maes	Eitem ar 31.07.2012
4	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Sut lwyddiant a gafwyd i wella gwasanaeth wrth i'r Cyngor weithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. Beth yw'r buddion ariannol? A lwyddwyd i gynllunio a darparu gwasanaethau'n agos at y galw yn ein cymunedau? Beth yw llwyddiannau'r Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn? Gofal gan nyrsys i fod ar gael mewn cartrefi	

		henoed Beth sydd wedi'i gyflawni o gydweithio gyda Betsi yn ardal Meirionnydd? Sut lwyddiant a gafwyd wrth gydlyn trefniadau gydag Ysbyty Gwynedd ar ollwng plant yn dilyn triniaeth? Pa fanteision ariannol a gafwyd i'r Bartneriaeth? Beth yw'r diweddaraf ar ddatblygiadau ar ofal iechyd i blant mewn gofal? Pa mor llwyddiannus fu'r Cynllun Partneriaid mewn Gofal? A yw'r ddarpariaeth i blant mewn gofal yn ddigonol?	
5	Plant Mewn Gofal	Angen mwy o wybodaeth – yn arbennig: Rhesymoli / cydweithio hefo Ynys Môn	
6	Tiroedd a drosglwyddwyd drosodd i Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) Gwahodd cynrychiolydd o CCG i fynychu'r Pwyllgor Craffu	Mater i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau	
7	Canolfannau Hamdden	Angen mwy o wybodaeth am yr Adolygiad	

	Annog cadw'n iach a hamddena	Canolfannau Hamdden	
8	Anabledd • Darpariaeth rhesymoli • Gofal Dydd Anabledd Dysgu • Awtistiaeth	Angen mwy o wybodaeth am y ddarpariaeth gyfredol gan gynnwys: • Darpariaeth i gynorthwyo awtistiaeth • Beth yw'r ddarpariaeth all-sirol ac a oes digon o adnoddau i ymdopi â'r ddarpariaeth • Beth yw'r cynlluniau i'r dyfodol? • Sut mae'r Cyngor yn cydweithio ag awdurdodau eraill yn unol â dymuniad Llywodraeth Cymru • A fu gwelliant yn y cynllunio a darparu o wasanaethau ar y cyd i bobl gydag anableddau ers cyflwyno'r Cynllun Comisiynu Anabledd yn 2011?	
9	Darpariaeth Gwasanaethau yn lleol		
10	Llwybr i Gyflogaeth	Angen gwybodaeth gan gynnwys: • Polisiâu ac adnoddau sydd ar gael • A oes datblygiadau gyda denu pobl ifanc 18-24 oed o'r maes gofal	
11	Materion Tai	Mater i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau	
12	Parcio	Mater i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau	
13	Cynnal a Chadw llwybr yr Arfordir	Mater i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau	

14	<u>Teleofal ac Offer Cefnogi Pobl</u> Gwnaed addewid gan y Cyngor y byddai gwell gwasanaeth gosod offer a Theleofal i ddefnyddwyr yn dilyn integreiddio Gwasanaeth Diogelwch yn y Cartref.	Mae angen Monitro Cynnydd er mwyn: a) Asesu pa mor effeithiol bu'r newidiadau b) Beth yw barn y defnyddwyr a phartneriaid? c) Adroddiad gwerth am arian - ch) Adroddiad effeithlonrwydd y gwasanaeth	
15	<u>Ymyrraeth Ddwys – Cefnogi Teuluoedd</u> Teuluoedd gydag anghenion dwys yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig i'w galluogi i fagu eu plant yn effeithiol Plant, pobl ifanc, oedolion bregus a gofalcwyr yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig yn unol â'u hanghenion Bwrdd Gwasanaeth Cefnogaeth Integredig i Deuluoedd wedi ei sefydlu yn ystod 2011-12 i arwain ar y broses o sefydlu trefn IFSS yng Ngwynedd Eglurder a chytundeb yn ei le rhwng partneriaid ynglŷn â'r model gweithredu mwyaf addas i anghenion Gwynedd newydd ar gyfer IFSS yng	Mae angen Monitro Cynnydd er mwyn: a) Gwirio proses sefydlu'r Bwrdd Gwasanaeth Cefnogaeth Integredig ac a ydi'r trefniadau cychwynnol yn gweithio? b) Ystyried barn defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid c) Consensws barn bod angen craffu'r uchod	

	Ngwynedd	ymhen blwyddyn ch) Ymchwilio i'r posibilrwydd o fuddsoddi arian i Elusennau bach	
16	<u>Pobl Ifanc 18-24 oed</u> Beth yw'r cyfleoedd i rai sydd yn ddi-waith i gael mynediad i brofiadau gwaith a gwaith	Angen mwy o wybodaeth ar: a) Sut mae'r Cyngor yn chwarae ei ran yn y maes allweddol yma? b) Ydi'r Cyngor a'i Bartneriaid allweddol yn glir a chytûn yn eu gweithgaredd yn y maes yma? c) Beth yw profiadau pobl ifanc? ch) Ymchwilio i raglenni prentisiaeth ar gyfer pobl ifanc oherwydd diffyg cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc d) Y Cyngor ei hun yn gofyn am ormodedd o gymwysterau ar gyfer swyddi o fewn y Cyngor i ymgeiswyr fedru ymgeisio amdanynt dd) Adroddiad o'r hyn sydd wedi ei gyflawni /	

		ymchwilio beth sydd ar gael o ran cyflogaeth	
17	<u>Cynllun Tlodi Plant</u> Mae hwn yn faes polisi allweddol gan Lywodraeth Cymru ac yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf.	Angen mwy o wybodaeth am: a) Faint o gynnydd sydd wedi bod mewn nifer pobl ifanc sy'n ymarfer eu sgiliau llythrennedd ariannol? b) Ydi teuluoedd bregus yn fwy ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt oresgyn tlodi nag oedd yn 2009? c) Craffu elfen stigma cinio am ddim	
18	<u>Cefnogaeth i Ofalwyr</u>	Angen mwy o wybodaeth am: a) Faint o gynnydd a wnaed ar y strategaeth i ddarparu dewisiadau o gefnogaeth i ofalwyr (Deddf 2004 – Carers Equal Opportunities Act)? b) Faint o gynnydd a wnaed mewn cynnig dewisiadau gofal i drigolion Gwynedd?	

19	<u>Panel Rhiant Corfforaethol</u>	Angen gwybodaeth – yn arbennig: • Trefniadau hyfforddi aelodau yn eu cyfrifoldebau fel rhiant corfforaethol • Mesur canlyniadau rhaglen y Panel i blant mewn Gofal • Eglurder ai mater Gweithredol neu drefn craffu/arall	
----	-----------------------------------	--	--

Materion a gyfeiriwyd er ystyriaeth yr aelodau gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol wrth graffu'r **Cynllun Gwella**:

- 20 Holiadur a gynhaliwyd i asesu bodlondeb cwsmeriaid gyda'r gwasanaeth gofal yn awgrymu bod 76% yn anhapus gydag ymateb y Cyngor
- 21 Prosiect Trefniadaeth Addysg Gynradd ac Uwchradd (Tudalen 40 – Add.05 yn y Cynllun Gwella) – mynegwyd pryder bod y pwyslais ar ardal Meirionnydd yn codi'r risg o fethu gweithredu'n gytbwys ar draws y Sir. Nodwyd angen i fonitro'r sefyllfa'n draws sirol yn ystod y flwyddyn.
- 22 Cynlluniau Gwella Iechyd (Tudalennau 78 + 79)
 - roedd dau o'r gwelliannau'n methu a mynegwyd pryder bod perygl i'r Cyngor fod yn gor-ymestyn gyda phrinder adnoddau. Angen ystyried ai'r Cyngor neu'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol/Bwrdd Iechyd yw'r mwyaf priodol i fod yn ymwneud â rhai o'r materion yma.
 - Nodwyd yr angen am fesuryddion mwy pwrpasol
- 23 Cynlluniau Iaith (Tudalennau 84-86) Fe heriwyd nifer o'r asesiadau ac awgrymwyd coch/ambr yn lle gwyrdd. Angen cadw golwg ar gynnydd y rhaglen yma yn ystod y flwyddyn.